



# Y Bont

Cylchgrawn Eglwys Seilo Caernarfon

Tach. 2014  
Rhifyn 211

## Oedfaon y Sul

- 2 Tach - Bore: **Gweinidog**  
Bydd bwrdd Masnach Deg yn y cyntedd  
Hwyr (5pm): **Uno yn Salem**
- 9 Tach - Bore a Hwyr: **Y Parchg Ddr John Tudno Williams**  
Bydd bocs Banc Bwyd yn y cyntedd. **Derbynnir bocsys Operation Christmas Child**
- 16 Tach - Bore a Hwyr: **Gweinidog**  
Bydd bocs Banc Bwyd yn y cyntedd
- 23 Tach - Bore a Hwyr: **Y Parchg Ddr Huw John Hughes**
- 30 Tach **Sul Cyntaf yr Adfent** - Bore a Hwyr: **Gweinidog**.  
Gweinyddir y Cymun yn oedfa'r bore.



## Digwyddiadau Mis Tachwedd

Nos Lun 3 Tach (7.30pm) - **Y Gymdeithas Lenyddol**, *Recordio 'Galwad Cynnar'*

Nos Lun 10 Tach (7pm) - **Cymdeithas Chwirydd Seilo**. 'Crefftau'r Nadolig' yng nghwmni Eirian Pritchard

Nos Fercher 12 Tach (6-7pm) / Bore Iau (10-11am) derbynnir nwyddau yn y theatr ar gyfer y Ffair. Ar yr un amseroedd derbynnir Bocsiâu 'Operation Christmas Child'

Dydd Iau 13 Tach (1pm—5pm) - **Ffair Nadolig Seilo**

### *Ffair Nadolig Seilo*

*Dydd Iau, 14 Tachwedd (1pm - 5pm)*

*Cacennau, pwdin 'Dolig, taffi triog, anrhegion,  
cynnyrch cartref a danteithion, anrhegion, cardiau ac ati  
Pris mynediad £1.*

*Elw tuag at Seilo a Chymdeithas Alzheimer*

**Taro Mewn** bob dydd Mawrth rhwng 10 ac 11am

**Dosbarth derbyn** bob dydd Mawrth am 4.30pm

**Seiat bob dydd Mercher** am 10am

**Y Gell Weddi** bob dydd Iau am 10.30am

*Am newyddion, gwybodaeth a lluniau gweler tudalen Eglwys Seilo ar*  
**[www.henaduriaetharfon.org](http://www.henaduriaetharfon.org)**

## Am Eiliad

'Dim ond heddiw tan yfory  
Dim ond fory tan y ffair.'

Ydi, mae Ffair Nadolig flynyddol Seilo ar y trothwy. Cofiwch amdani. Yn ôl yr argoelion mae'n ymddangos y bydd yn ffair werth chweil eto 'leni.

Gallwch ddychmygu'r anhrefn fydd ym Mhlas Bach ar y penwythnos cyn y ffair. Bydd Elwyn wedi trefnu (yn gyfleus!) i fod oddi cartref ar y penwythnos arbennig hwn yn flynyddol, gan roddi rhwydd hynt i mi lenwi'r parlwr â photia jam a phwdina Dolig. Ofn fy nghalon i neb alw a gweld y fath lanastra a phob cadair yn drwmlwythog o focsys a basgedi. Byddai hyd yn oed y gath yn digalonni wrth weld ei llwybrau arferol o'r golwg dan yr holl geriach!

Mae mor anodd credu fod blwyddyn gron wedi mynd heibio ers y ffair y llynedd. I ble'r aeth y flwyddyn? Dyna'r cwestiwn sydd ar leferydd sawl un ohonom wrth i ni nesau at y Nadolig. Ai oherwydd ein bod yn mynd yn hŷn y mae 'amser' fel petai'n mynd yn gynt?

Tuedd plentyn yw dyheu am bob yfory ac edrych ymlaen at benblwydd neu rhyw achlysur arbennig. Methu gweld amser yn mynd yn ddigon buan. Ei weld o'n diflannu'n rhy gyflym fydda i a'm gadael, bron yn ddieithriad, yn holi 'i ble'r aeth?'

Onid dyn sy'n mesur amser er ei hwylustod ei hun? Mae trigain eiliad mewn munud a thrigain munud mewn awr, pedair awr ar hugain mewn diwrnod, deg diwrnod ar hugain mewn mis a thri chant chwe deg a phump diwrnod mewn blwyddyn. Ysgwn i sawl blwyddyn sydd mewn tragwyddoldeb? Fe'ch heriaf i geisio

ateb. Go brin y gall neb wneud hynny. Pan af i fynwent Llanbeblig, neu unrhyw fynwent arall o ran hynny, byddaf yn syllu ar y cerrig beddi ac yn ceisio gwneud rhyw synnwyr o'n hamser ar y ddaear. Diferyn bach iawn mewn môr anferthol yw hwnnw. Ac eto, faint bynnag o amser a gawn ni ar y ddaear, credwn ein bod ni oll yma rydym oll i bwrpas ac i wneud gwahaniaeth. Os credwn, fel Cristnogion, fod bywyd yn gysegredig yna fe greddwn hefyd bod gwerth i bob dydd o'n hoes ac y dylem ddefnyddio'n hamser prin i hyrwyddo dyfodiad Teyrnas Dduw yn y byd.

Byddaf yn aml yn dewis emyn Rhys Nicholas i'w ganu mewn oedfa ar y Sul:

Ti sy'n lliwio rhod yr amser  
ac yn creu pob newydd ddydd,  
gwrando, Iôr, ein deisyfiadau  
a chryfha yn awr ein ffydd:  
ynot y cawn oll fodolaeth,  
ti yw grym ein bywyd ni,  
'rwy't Greawdwr a Chynhaliwr,  
ystyr amser ydwy't ti. (Cff 100)

Gwenda Richards

## Coffâd

### Mrs Gwenda Owen, 6 Llys Siabod

Gwraig dawel oedd Gwenda yn mwynhau cwmni ei theulu a'i ffrindiau. Roedd cadw tŷ wrth ei bodd, a'i chartref bob amser fel pin mewn papur. Tomos, ei hŵyr, oedd kannwyll ei llygaid a manteisiai ar bob cyfle i fod yn ei gwmni. Cafodd gystudd byr ac annisgwyl a chydymdeimlwn â Gwynedd, Michael, Karen, Tomos a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli un mor annwyl o'u plith.

Trwy amryfusedd ni chafodd y coffâd hwn ei gynnwys yn rhifyn mis Gorffennaf o'r Bont. Ymddiheurwn yn ddiffuant i deulu Gwenda am hynny.

**Mrs Margaret Gwendoline Jones**, 45 Glanffynnon, Llanrug ( Stryd Garnon gynt)

Hanai Margaret o Gaernarfon a byddai'r teulu'n aelodau ffyddlon yng nghapel Beulah. Ni fu'n dda ei hiechyd ers blynyddoedd ac yn ddiweddar treuliodd gyfnodau i mewn ac allan o'r ysbyty. Gwraig garedig ei natur a fu'n gefn i'w theulu ar hyd y blynyddoedd. Byddai wrth ei bôdd yn teithio a châi bleser o ddarllen a gwau a gwnio. Cydymdeimlwn â Gwilym, Dylan a'r teulu oll yn eu colled.

Dymunwn Dduw yn gymorth ac yn gysur i'r teuluoedd yn eu hiraeth

### **Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn ddiffuant â **Charles Williams**, Bryn Tecwyn, Llandwrog Uchaf a **Dorothy Williams**, Llys Beuno, Ffordd Hampton, yn eu profedigaeth ddiweddar o golli eu mam. Roedd y ddiweddar Laura Williams yn nain i **Owain Llŷr** ac **Irfon Pennant**. Cydymdeimlwn hefyd â **Mrs Beryl Jones**, Tegfan, 41 Rhes Assheton, sydd wedi colli ei brawd yn ddiweddar.

### **Gwaeledd**

Anfonwn ein dymuniadau da at bawb o'r eglwys a fu'n wael yn ystod y mis. Da yw deall bod **Mrs Peggy Rowlands**, 30 Stryd Newydd, yn gwella wedi iddi fod yn bur wael. Treuliodd gyfnod yn Ysbyty Gwynedd ac yn Ysbyty Glan Clwyd, ac mae hi

erbyn hyn yn ysbyty Eryri. Mae **Mrs Dilys Hughes**, 17 Llys Gwyn, bellach adra o'r ysbyty yn dilyn llawdriniaeth. Treuliodd **Mr Geraint Jones**, Isgraig, Lôn Ddewi gyfnod yn Ysbyty Gwynedd a derbyniodd **Mrs Ann Hughes (Barlow)** lawdriniaeth yn Ysbyty Maelor, Wreccsam. Mae **Mrs Cathryn Jones**, Tegfan, Lôn Cae Garw, Rhosbodruall a **Mrs Beryl Jones**, Tegfan, 41 Rhes Assheton, yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd.

### **Penblwydd arbennig**

Llongyfarchiadau calonnog i **Mrs. Mair Davies**, 39 Llys yr Eifl, ar ddathlu ei phenblwydd yn 90 yn ddiweddar.

### **Priodas**

Dydd Sadwrn, 1 Tachwedd, priodwyd **Iolo ap Ifan Evans** a **Ffion Elen Jones** yn eglwys Seilo. Mae Ffion yn wyres i Mrs Mair Jones, Hendy. Llongyfarciadau i'r ddau a phob bendith ar gyfer y dyfodol. Gweinyddwyd y briodas gan y Parchedig Gwenda Richards

### **Bedydd**

Yn dilyn yr oedfa bore Sul, 2 Tachwedd, yn Seilo, 2 Tachwedd, bedyddiwyd **Robert Paul Lloyd Jones**, mab Steven Paul Lloyd Williams a Karen Wyn Jones, 28 Cae Mur. Llongyfarchwn y teulu gan ddymuno bendith Duw ar eu haelwyd.

### **Operation Christmas Child**

Bydd bocsys 'Operation Christmas Child' yn gadael Seilo p'nawn Sadwrn 15 Tachwedd. Sylwer fod y drefn ychydig yn wahanol i'r arfer eleni. Ni ddisgwylir i chwi ddewis oedran arbennig ar gyfer y plant, ond yn

hytrach **llenwi'r bocs â nwyddau ar gyfer bachan neu eneth**. Bydd y gofalwyr yn y cartrefi plant yn didoli'r anrhegion gan geisio sicrhau fod pob plentyn yn derbyn anrheg. Gellir cyfrannu'n ariannol yn ogystal

Derbynnir y bocsys yn ystod oedfaon y Sul yn Seilo, 9 Tachwedd, neu ar y nos Fercher canlynol, 12 Tachwedd rhwng 6-7 yr hwyr. Bydd y capel ar agor hefyd rhwng 10 ac 11 o'r gloch bore dydd Iau 13 Tachwedd neu yn ystod oriau'r ffair.

### **Y Gymdeithas Lenyddol a Chymdeithas y Chwiorydd**

Cawsom Swper Cynhaeaf llwyddiannus eto eleni pan ddaeth y ddwy gymdeithas at ei gilydd. Croesawodd Iolo Thomas y Cadeirydd ni'n gynnes iawn ac arweiniodd ein Gweinidog, y Parchedig Gwenda Richards, ni i ddweud y gras bwyd gyda'n gilydd. fel arfer darparwyd swper blasus o selsig, tatws trwy'r crwyn a ffa pôb gyda theisen afal a hufen yn bwdin gan y merched.

Yna cyflwynodd Iolo ein gŵr gwadd, Arfon Gwilym, arbenigwr ar ganu gwerin a cherdd dant. Testun y sgwrs oedd "Yr Hen Gymru Lawen". Canodd un o'r hen ganeuon gydag afiaeth cyn mynd â ni i'r 1830au pan oedd canu ym mhob tafarn ac allan yn y pentrefi, ond am mai prin oedd yr oriau hamdden tuedd i forio canu a goryfed. Soniodd fel y bu Mendelssohn, y cyfansoddwr yn aros yn Llangollen ar ei ffordd i Iwerddon. Nid oedd y canu a sain y telynau yn ei blesio, ond gan mai offeryn ysgafn i'w chario ar y cefn gyda degau o dannau oedd y Delyn Deires nid hawdd ei chadw mewn tiwn, ond y rhyfeddod

oedd bod telyn ym mhob tafarn yn ôl y cyfansoddwr. Soniodd hefyd am Eisteddfod ym Mhorthmadog lle'r aeth pethau dros ben llestri a rhaid oedd rhoi taw ar ganu gyda'r tannau.

Gyda'r Diwygiad Methodistaidd daeth diwedd y rhialtwch a'r meddwi, ond yn ôl Arfon aeth yr hwyl a'r bwrlwm o'r canu hefyd. Ond yn nes at ein hamser ni daeth rhai cantorion â'r naturioldeb yn ôl, fel Bob Tai'r Felin a fyddai'n dod ar y llwyfan yn ei sgidia hoelion mawr, a'i arddull naturiol yn gwneud i'r gynulleidfa chwerthin. Clywsom record o Delynores Eryri ym mhafiliwn Corwen yn canu gyda'r tannau yn yr hen ddull a'r geiriau digri yn gwneud i bawb chwerthin yn braf.

Ac felly y diweddodd Arfon Gwilym drwy ganu limigrau doniol a gwneud i ninnau chwerthin cyn mynd adra â gwên ar ein hwynebaw.

Noddwyd y noson gan Gyngor Gwynedd a Noson Allan a diolchodd Gwenda Richards i bawb am noson i'w chofio.

Margaret W Roberts

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf i law erbyn Tachwedd 20fed

Gweinidog: Parchg Gwenda Richards 676435  
Golygydd: Mrs Angharad Rhys Williams 674865